

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 21ain o Hydref 2019 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Alan H. Jones, Griffith Evan Thomas, Bethan Lawton, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Dim
2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cynghorydd ddatgan buddiant
3. Derbyn cofnodion 16 Medi 2019:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Alan Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Bethan Lawton yn eilio.

4. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101672	£549.91
Cyllid a Thollau EM	YG	101673	£137.60
B Gwilym	Teleffon	101674	£56.75
B Gwilym	Stampiau	101675	£77.40
B Gwilym	Deunydd swyddfa	101676	£21.15
Y Ganolfan	Llogi ystafell	101677	£126.00
J.K.Jones Landscapers	Torri gwair	101678	£1,020.00
Cyngor Gwynedd	Treth annomestig	101679	£762.70

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau.

5. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 - Map o'r Cynigion a Mapiau Manwl:

Nodwyd bod Cae Gwyn, Ffordd y Felin wedi ei gynnwys yn ôl o fewn y ffin datblygu.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 - Datganiad Ysgrifenedig:

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

7. Adolygu gwariant o Ebrill 2019 i Fedi 2019:

Darparwyd taenlen Excel yn manylu ar y gwariant, a'r gwariant yn erbyn y gyllideb. Nodwyd bod nifer o anfonebau i am symiau uchel yn cyrraedd yn ystod y misoedd nesaf e.e. toiled cyhoeddus, cynnal a chadw'r pafiliwn a'r clwb ieuencid.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

8. Cae Chwarae - gosod les i Glwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

Nid oedd diweddariad.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I ysgrifennu at y Clwb pêl-droed gan ofyn am restr o'r gemau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn medru anfon anfoneb, gan bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi codi'r mater mewn archwiliad.

9. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- Y Pafiliwn yn iawn
- Y rhwystrau dal angen eu atgyweirio
- Y capiau angen eu gosod ar y siglen
- Y gwaith o gynnal a chadw'r Pafiliwn wedi cychwyn ond nid yw'r bwrdd hidraul wrth ymyl y sied a'r caead ar y ffenestr wrth toiled merched wedi ei wneud

Y Cynghorydd Bethan Lawton wedi archebu capiau i'r offer chwarae

PENDERFYNIAD: I atgoffa'r contractwr bod angen atgyweirio'r bwrdd hidraul, a'r caead ar y ffenestr, gan hefyd baentio'r ffenestr wrth y toiled dynion
I gael prisiau am siglenni newydd, sef rhai pren, alwminiwm a pren/alwminiwm

10. Cae Chwarae - Trefniadau torri gwair yn 2020:

PENDERFYNIAD: I ofyn am ddyfynbris am dorri'r gwair am flwyddyn ac am dair blwyddyn.

11. Clwb Ieuenctid Brynchrug:

Adroddwyd y canlynol:

- Yr oedd ychydig o ddryswch ar ddechrau'r tymor gan nad oedd aelodau o'r clwb yn ymwybodol bod y clwb wedi ail-ddechrau ar ôl y toriad dros yr haf
- Niferoedd sydd yn mynychu yn is na'r arfer gan bod sesiwn ymarfer pêl-droed ac ymarferion ar gyfer pantomeim yn cael eu cynnal ar yr un noson
- Cais wedi ei dderbyn gan un rhiant i'r clwb newid noson, ond nid oedd yn bosib oherwydd nad oedd yr ystafell yn y Ganolfan a'r gael, gan gynnwys staff yr Urdd sydd yn rhedeg y clwb ar ran y cyngor
- Anfonwyd un plentyn adref ac mae'r plentyn wedi ei ddiarddel o'r clwb oherwydd ymddygiad

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I benodi dau gynghorydd i fod ar gael er mwyn rhoi cefnogaeth i staff yr Urdd petaent angen.

12. Adroddiad y Cynghorydd Sizr:

Adroddwyd y canlynol:

- Wedi mynychu noson Nosweithiau yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, weithiau mae cronfeydd bychain o arian ar gael i gymunedau
- Cwyn wedi ei gyflwyno i GoSafe Wales am goryrru. Arolwg cyflymder wedi ei gynnal yn ystod mis Gorffennaf 2019, sef ar y ffordd allan o'r pentref wrth ymyl y Peniarth, gyda'r mesurydd yn dangos mai 22 mya ydy'r cyfartaledd cyflymder. O'r farn bod y mesurydd wedi ei osod yn y lle anghywir.
- PCSO newydd wedi cychwyn gweithio yn yr ardal.
- Wedi bod mewn cyswllt gyda Phen-naeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol parthed adnewyddu'r ffens ym Maes Hyfryd wrth y cae chwarae. Nid yw Cyngor Gwynedd am adnewyddu'r ffens.
- Damwain angheuol wedi bod yn y pentref.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth
I wahodd y PCSO Sandie Williams i gyfarfod o'r cyngor
I ysgrifennu at Pennaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn datgan pryder Cyngor Cymuned Brynchrug am y diffyg adnewyddu'r ffens ym Maes Hyfryd, a bod yn berygl i blant bach, gan bod perygl iddynt ddisgyn lawr y llechwedd.
I ysgrifennu at Brif Beiriannydd Meirionnydd er mwyn atgoffa am arwyddion Ffordd Cefn Coed.
I ysgrifennu at Adra parthed y ffens sydd wrth ymyl y garages ym Maes Hyfryd.
I ddatgan cydymdeimlad y Cyngor gyda theulu pawb oedd ynghlwm a'r ddamwain angheuol yn y pentref. Ysgrifennu at Brif Beiriannydd Meirionnydd parthed y ddamwain angheuol er mwyn gofyn am fanylion beth wnaeth Cyngor Gwynedd ar y noson i sicrhau llif y traffig a bod dryswch wedi bod gyda'r arwydd yn dweud ffordd ar gau.

13. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod grisiau pren ar lwybr cyhoeddus ger Geufron wedi prydru. Y llwybr yn mynd o'r chalets yn y Woodlands i lawr at y ffordd fawr wrth ymyl Dolau Gwyn.

PENDERFYNIAD: I anfon llythyr at Reolwr Llwybrau Cyhoeddus Meirionnydd er mwyn tynnu sylw at y grisiau perygl a bod angen coed newydd.
I ysgrifennu at y Gwasanaeth Rhoi Gwaed er mwyn gofyn pam nad yw'r gwasanaeth ar gael yn Nhywyn a pham bod y gwasanaeth wedi ei symud.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:25pm

Llofnod y Cadeirydd